Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council
Cyfarfod Misol / Monthly Meeting
Nos Lun 16eg Mehefin 2025 / Monday, 16th June 2025
Festri Tabernacle Vestry, Pencader
8.00 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, H. Lewis, A. Davies, G. Jones, A. James, R. Thomas, W. Cole, Anita Evans (Clerc/Clerk),
Ymddiheuriadau / Apologies: J. Jones, D. Griffiths, D. Davies, V. Davies.
Absennol / Absent: -------

Cyn dechrau'r cyfarfod misol cawsom gyfle i wrando ar Mr. Wayne Jones, swyddog o gwmni Openreach yn siarad am gynlluniau y cwmni i ddarparu rhwydwaith band-eang ffibr yn yr ardal hon. Mae angen i ragor o bobl hawlio talebau i sicrhau bydd y system yn cael ei uwchraddio. Cytunwyd i ddosbarthu ffurflenni i blwyfolion er mwyn tynnu eu sylw at y mater holl bwysig yma a'u hannog i ymateb.
Before the monthly meeting the Chairman welcomed Mr. Wayne Jones, a representative from Openreach who had come to discuss the company's plans to provide faster broadband through fibre in this area. It is paramount that more people apply for vouchers to ensure sufficient interest if the system is to be upgraded in our community. It was agreed to distribute leaflets to parishioners to draw their attention to this matter and encourage a greater level of response.

1. Croeso: Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau.		**1. Welcome:** Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted.
2. Datgan diddordeb: neb		**2. Declaration of interest:** none
3. Adroddiad yr Heddlu – dim swyddog yn bresennol / dim data misol		**3. Report from Police –** no officer present / no monthly data.
4. Cofnodion Mis Mai (19.05.2025) - derbyniwyd fel cofnod cywir; cynigiwyd gan A. James, eiliwyd gan A. Davies.		**4. Minutes of May Meeting (19.05.2025) –** accepted as a true record; proposed by A. James, seconded by A. Davies.
5. Materion yn Codi: *(i) Cyngor Sir Gâr: Adran Briffyrdd – wedi ymateb i'n rhestr diweddaraf o gwynion ac yn mynd i weithredu.* *(ii) Cyfleusterau Pencader ac Alltwalis: Glanhau: mae cynnig wedi dod o Alltwalis i roi hysbyseb ar WhatsApp y pentref i hysbysebu am lanhawr/lanhawraig. Mae angen glanhawr/glanhawraig am 5 awr yr wythnos. Cytunwyd ar gyfradd cyflog o £12.21. yr awr. Nodwyd bydd y Cyngor Sir yn gorffen glanhau yn Alltwalis ddiwedd mis Mehefin.* *Cyn symud ymlaen ar y mater hwn, cytunwyd i gysylltu yn gyntaf gydag Un Llais Cymru er mwyn sicrhau bod hyn yn dderbyniol.* *Fe hysbysebir am rywun i lanhau safle Pencader ar yr un raddfa - yn gynta caiff hyn ei osod ar dudalen Facebook y pentre. Yn y cyfarfod ym Mis Mai soniwyd am osod blychau talu ar ddrysau toiledau y ddwy safle ond mae hyn yn ddrud iawn.* *(iii) Mynwent y Plwyf, Pencader: mae'r slabiau oedd wedi eu gosod i ddal llawer o flodau ar hyd un bedd wedi eu codi. Mae hyn yn golygu bydd y gofalwr yn gallu torri'r borfa yn haws o hyn ymlaen.* *(iv) Data wrth gefn: bydd A. Davies yn helpu'r Clerc i arbed data ar beiriant allanol.*		***5. Matters Arising:*** *(i) Carmarthen County Council: Highways Department has confirmed receipt of our latest concerns and will carry out improvements.* *(ii) Pencader and Alltwalis Conveniences: Cleaning: an offer has been received from Alltwalis to place an advertisement for a cleaner on the village's Whats App. A cleaner is required for 5 hours a week. A salary rate of £12.21 per hour was agreed. It was noted that the County Council will cease cleaning in Alltwalis at the end of June.* *Prior to moving ahead with this matter, it was agreed to contact One Voice Wales for advice to ensure this is acceptable.* *Pencader Conveniences cleaning - we will initially advertise on the village's Facebook page (salary scale as above). At the last meeting in May, it was suggested that we look at coin machines for all doors on both sites, but this has proven to be very expensive.* *(iii) Parish Cemetery, Pencader: the slabs placed in front of one grave to hold more flowers have been removed. It will now easier for the groundsman to mow the grass.* *(iv) Data back-up: A. Davies will assist the Clerk with saving data on the external hard-drive.*

(v) Diffibrilwyr: mae'r data a'r adroddiad diweddaraf wedi eu derbyn oddi wrth Adrian Munday. *(vi) Cyfeiriadau gwefan ac e-bost y Cyngor: ystyriaeth bellach yng nghyfarfod Mis Gorffennaf.* *(vii) Cafn blodau yn Llanfihangel-ar-arth: trafodwyd a phenderfynwyd symud y cafn blodau sy'n cael ei ddifrodi yn Llanfihangel-ar-arth i bentref Dolgran (dyma'r unig bentref yn ardal y Cyngor lle nad oes cafn blodau wedi ei ddarparu).* *(viii) Sedd wag: dim ceisiadau.*		*(v) Defibrillators: Adrian Munday has provided us with the latest update report and data.* *(vi) Council's Website and e-mail addresses: will be reviewed by July.* *(vii) Flower trough at Llanfihangel-ar-arth: it was discussed and agreed that the trough which had been vandalised in Llanfihangel-ar-arth be moved to Dolgran (the only village in the Council's area where no planter has been provided).* *(viii) Vacant seat: no applications.*
6. Ariannol: Derbyniwyd y Fantolen Ariannol hyd at 31.05.2025 oddi wrth H. Lewis. Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan W. Cole. Cytunwyd talu'r anfonebau canlynol: Yswiriant Zurich - £1213.31. Cynnig A. Davies, eilio A. James.		**6. Financial:** The balance sheet for 31.05.25 was received from H. Lewis. It was passed as a true record; proposed by A. Davies; seconded by W. Cole. Agreed the following to be paid: Zurich Insurance: £1213.31. Proposed to pay A. Davies, seconded W. Cole.
7. Cynllunio: (wedi e-bostio i aelodau'r Is-Bwyllgor cynllunio - dim gwrthwynebiad): (1) Rhif 1 Bro Mafon, Llanfihangel-ar-arth; (2) Yr Hen Efail, Pencader.		**7. Planning Matters:** (e-mailed to Planning Sub-Committee Members - no objection): . (1) No. 1 Bro Mafon, Llanfihangel-ar-arth; (2) The Old Smithy, Pencader
8. **Swydd y Clerc:** nodwyd bod hysbysiad wedi ei osod yn rhifyn Mehefin o Clecs Bro Cader. Mae hefyd ar dudalen Facebook Cymuned Pencader, yn ogystal ag ar safle we Un Llais Cymru ac yn holl hysbysfyrddau'r Cyngor Cymuned.		**8. Vacancy for Clerk:** it was noted that an advert has been placed in the June edition of Clecs Bro Cader. It is also on Pencader Community Facebook, as well as the One Voice Wales website and on all of the Community Council's noticeboards.
9. Archwiliad Ariannol 2024-2025: Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024-2025 gan y Cyngor. Cynigiwyd gan H. Lewis; eiliwyd gan A. Davies, a chytunwyd gan bawb oedd yn bresennol. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwaith yr Archwilydd Mewnol, Mr. Eryl Jones (Cyfrifydd), Llanybydder. Yn unol â gofynion Archwilio Cymru, nodwyd bod yr Hysbysiad Archwilio (o Benodi'r Dyddiad ar Gyfer Arfer Hawliau Etholwyr) eisoes wedi osod ar hysbysfyrddau a safle we'r Cyngor. Bydd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024-2025, ynghyd â'r ddogfennaeth y gofynnir amdano, yn cael eu hanfon i Archwilio Cymru cyn y 7ed Gorffennaf.		**9. Financial Audit 2024-2025:** The Annual Return for 2024-2025 was approved by the Council. Proposed by H. Lewis; seconded by A. Davies and agreed by all present. The Council acknowledges the work of the Internal Auditor, Mr. Eryl Jones (Accountant), Llanybyther. It was noted, in accordance with Audit Wales requirements, that the Audit Notice (of Appointment of the Date for the Exercise of Electors' Rights) has been placed on the Council's noticeboards and website. The Annual Return for 2024-2025, along with all documentation requested, will now be submitted to Audit Wales prior to 7th July 2025.
10. Dogfennaeth: (i) Adroddiad Blynyddol 2024-2025. (ii) Cynllun Bioamrywiaeth. Bwriedir cyflwyno'r ddwy ddogfen yn y cyfarfod misol nesaf ym Mis Gorffennaf.		**10. Documentation:** (i) Annual Report 2024-2025. (ii) Biodiversity Plan. It is intended that both the above documents will be presented in the next monthly meeting in July.
11. Gohebiaeth (wedi eu e-bostio i'r Cynghorwyr): i. Un Llais Cymru: **(a)** Deddf Llesiant y Dyfodol **(b)** Presenoldeb mewn cyfarfodydd ardal.		**11. Correspondence (e-mailed to Councillors):** i. One Voice Wales: (a) Wellbeing of Future Generations. (b) Attendance in Area Meetings.

ii. Cyngor Sir Gâr: cais am ddata Cod Ymddygiad iii. Bwrdd Iechyd Hywel Dda: ymgynghoriad ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol. iv. Cofnodion Pwyllgor Cynghorau Cymuned ar Green Gen. v. Ffedeiryddio ysgolion Cae'r Felin a Brynsaron. vi. Llythyron diolch am gyfraniad oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru a Chlwb Stroc Caerfyrddin. vii. HP ink yn codi i £6.49 y mis.		ii. Carmarthen County Council – request for Code of Conduct data. iii. Hywel Dda Health Board: consultation on the Clinical Health Plan. iv. Minutes from committee meeting of Community Councils on Green Gen. v. Federation of Pencader and Brynsaron schools. vi. Thank you letters for donations from Welsh Air Ambulance and Carmarthen Stroke Club. vii. HP Ink will cost £6.49 per month.
12. Unrhyw Fater Arall (gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr / Clerc yn unig): A. Davies: rhoddodd wybodaeth am ddigwyddiadau a datblygiadau gyda PIDA yn ystod y misoedd nesaf; gwteri heibio Penrhiw wedi llenwi ac angen eu glanhau; palmentydd Pencader yn frwnt iawn. H. Lewis: gan fod y gwaith Archwiliad 2024-2025 wedi bod yn hwyr iawn yn cael ei ddychwelyd oddi wrth ein cyfrifydd, mae'n gofyn i'r aelodau ystyried a ddylid gofyn i gyfrifydd gwahanol ar gyfer y tro nesaf; angen symud ymlaen gyda chael prisiau i osod stand y diffibrilydd yn Nolgran; angen edrych ar y Rheolau Sefydlog ynglyn â'r angen i gael tri phris ar waith o dan ffigwr penodol. estyn cydymdeimlad y Cyngor gyda'r Clerc yn dilyn marwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith. G. Jones: arwydd 20 milltir yr awr ar bwys Llwyn wedi ei daflu i'r tyfiant. M.Griffiths: am gynnig ein bod yn dechrau bob cyfarfod drwy'r flwyddyn am 7.30 y.h. Felly, gofyn am hyn i gael ei osod ar Agenda cyfarfod mis nesaf. Atgoffa aelodau a allai fod yn bresennol i gyfarfod am 6.30 y.h. ar 9ed Gorffennaf er mwyn ymgyfarwyddo â gosod yr offer ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Bydd ceisiadau am gymorth ariannol yn cael eu trafod mis nesaf.		**12. Any Other Business** (information from Councillors and Clerk only): A. Davies: provided information on events and developments with PIDA during the next few months; drains past Penrhiw are full and need to be cleaned; pavements in Pencader are in a poor state; H. Lewis: as the Audit work for 2024-2025 was late being returned from our internal auditor, requests if members should consider appointing an alternative internal auditor for next year; we need to move on with finding three prices for situating the defibrillator stand in Dolgran; need to review Standing Orders in relation to the requirement to obtain three quotations for work under a defined amount. sympathy was extended to the Clerk on the death of her brother-in-law. G. Jones: the 20 m.p.h. road sign near Llwyn is in the undergrowth. M. Griffiths: wishes to propose that meetings commence at 7.30 p.m. throughout the year – this matter therefore to be placed on the Agenda for next month's meeting. Members who can attend to meet on 9th July at 6.30 to familiarise with setting up and using the OWL system for hybrid meetings. Applications for financial assistance to be discussed at next month's meeting.
13. Dyddiad y Cyfarfod Misol Nesaf: Nos Lun, 21ain Gorffennaf, 2025. **Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid:** Nos Fercher, 16eg Gorffennaf, 2025 am 7.30 y.h.		**13. Date of Next Monthly Meeting**: Monday, 21st July, 2025. **Finance Sub-Committee Meeting**: Wednesday, 16th July, 2025 at 7.30p.m.

Gorffennwyd y Cyfarfod 9.40 y.h. / Meeting ended 9.40 p.m.